

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

4. Gwirfoddolwyr

4.15 Sut i weithio gyda gwirfoddolwyr anodd eu lleoli



Bydd y rhan fwyaf o fudiadau, ar ryw adeg neu'i gilydd, yn dod ar draws rhai pobl sydd heb fod yn addas. Os penderfynwch, yn ystod y broses dethol, nad yw gwirfoddolwr yn addas i'r cyfle y mae wedi ymgeisio amdano, ceisiwch ddarganfod a oes rhywbeth arall y gallai ei wneud dros y mudiad.

Beth bynnag yw'r rheswm dros benderfynu nad yw gwirfoddolwr yn addas, dylai'r broses fod yn deg ac yn dryloyw ac yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi'u nodi yn eich polisi Cyfle Cyfartal.

Os teimlwch ryw ymateb greddfodol yn erbyn gwirfoddolwr yn ystod y broses dethol, ni ddylech ei anwybyddu o reidrwydd, ond sicrhewch nad yw'n deillio o ragfarn bersonol.

Gofynnwch y cwestiynau canlynol i chi'ch hun:

- Beth yn union a ysgogodd y teimladau negyddol? Sicrhewch ei fod yn destun pryder dilys ac nad yw'n ymateb yn erbyn rhywun sy'n 'wahanol i chi' (mae gwahaniaethu ar y sail nad yw rhywun yn debyg i chi yn annerbyniol).
- A oedd eich pryder wedi'i ysgogi gan unrhyw anghysonderau yn yr wybodaeth a roddodd y gwirfoddolwr fel rhan o'r broses dethol, e.e. rhywbeth a ddywedodd yn y cyfweiliad neu ar ei ffurflen gais, bylchau yn ei hanes cyflogaeth neu'r ffaith ei fod wedi symud yn aml o le i le, tystlythyr a oedd yn niwlog iawn? Nid yw hynny'n golygu o reidrwydd fod y person yn anaddas ond efallai fod pwyntiau y mae angen ymchwilio iddynt ymhellach.
- Gofynnwch am farn rhywun arall. Trafodwch y materion sy'n peri pryder i chi gyda chydweithiwr neu ofyn iddo fod yn bresennol yn y cyfweiliad.
- Gwnewch ragor o wiriadau, e.e. gofynnwch am dystlythyr arall neu cynhaliwch ail gyfweiliad. Gofalwch fod rhesymau da dros wneud unrhyw wiriadau ychwanegol y gallwch eu cyfiawnhau'n ddiweddarach.

Dylai'r awyrgylch fod yn un lle mae gwirfoddolwyr yn teimlo'n barod ac yn hyderus wrth drafod gwybodaeth bersonol a allai fod yn berthnasol i'w dymuniad i wirfoddoli. Drwy gydol y broses dethol, dylai gwirfoddolwyr gael cyfle i dynnu'n ôl heb golli wyneb.

Dylid dweud yn onest wrth unrhyw un y mae'ch mudiad yn ei wrthod beth yw'r rhesymau am hynny, a dylid cynnig cymorth i ddod o hyd i gyfleoedd eraill i wirfoddoli. Mae'n syniad da gwneud nodiadau am y camau a gymerwyd fel y bydd eich penderfyniadau'n dryloyw ac yn rhai y gellir eu cyfiawnhau.

Os byddwch yn gwrthod gwirfoddolwr oherwydd canlyniad anfoddhaol i wiriad o gofnodion troseddol, byddwch yn onest ac egluro bod hynny'n debygol o'i atal rhag gweithio gyda grwp cleientiaid penodol neu mewn maes gweithgarwch penodol.

Eglurwch hefyd ei bod yn bosibl bod cyfleoedd eraill lle byddai croeso i'w brofiad a'i sgiliau. Os na allwch nodi cyfle arall yn eich mudiad, awgrymwch iddo fynd i'r ganolfan gwirfoddolwyr leol.

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5FH

Elusen Gofrestredig 218093

Ffôn: 0800 2888 329

help@wcva.org.uk

Ffacs: 029 2043 1701

www.wcva.org.uk



Ffôn: 0800 2888 329

www.wcva.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli

Wedi ei ddiweddarau: 05/08/2011